



**Older People's Commissioner for Wales**  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Mr Richard Parry-Jones  
Prif Weithredwr  
Cyngor Sir Ynys Môn  
Swyddfeydd y Cyngor  
Llangefni  
Ynys Môn  
LL77 7TW

Adeiladau Cambrian  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd  
CF10 5FL  
08442 640670  
gofyn@olderpeoplewales.com

12 Medi 2011

Annwyl Mr Parry-Jones,

**Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas a hysbysiad bod yr  
Adolygiad ar ben**

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm cais am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'. Rwy'n gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech a roddwyd i ymateb i'm cais. Mae'r ymatebion sydd wedi dod i law yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i bobl hŷn yng Nghymru. Os bydd y sefydliadau'n cymryd y camau y maen nhw wedi dweud y byddan nhw'n eu cymryd, dylid gweld gwelliant arwyddocaol ym mhrofiadau pobl hŷn yn yr ysbyty yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, gofynnais i Gyngor Sir Ynys Môn ymateb i Argymhelliad 5 ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan amlinellu sut y bydden nhw'n cydymffurfio ag ef. Os byddai'r penderfyniad yn cael ei gymryd i beidio â chymryd camau, roeddwn yn gofyn am esboniad dros beidio â chymryd camau. Ches i ddim ymateb yn uniongyrchol gan Gyngor Sir Ynys Môn ac felly anfonais Hysbysiad Ysgrifenedig yn gofyn am ragor o wybodaeth i'm darbwylo y byddai buddiannau pobl hŷn yn


cael eu diogelu a'u hyrwyddo drwy gydol y broses o ryddhau pobl hŷn o ysbytai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Ers hynny, mae ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i Argymhelliad 5 wedi dod i law. Mae fy nhîm a mi wedi asesu'r ymateb yn drylwyr. Rydyn ni wedi cael cymorth gan banel o gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan. Rwy'n fodlon ar ymateb Cyngor Sir Ynys Môn ac mae'n dda gen i nodi y bydd fy argymhellion i'n ffurfio'r sail ar gyfer gwell trefniadau partneriaeth i hwyluso cynlluniau rhyddhau wedi'u mireinio, gwell gwaith cynllunio a chomisiynu mewn gofal dementia a gwell profiadau i bobl hŷn tra byddan nhw yn yr ysbyty.

Gan fod eich ymateb wedi bodloni fy nghais am wybodaeth a fydd yn fy narbwyllo y cydymffurfir ag Argymhelliad 5, mae'r Adolygiad swyddogol fel y mae'n ymwneud â Chyngor Sir Ynys Môn bellach ar ben. Bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod fy argymhellion i a chynllun gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn troi'n realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru. Rydyn ni'n gobeithio cyfarfod â chi yng ngwanwyn 2012 i drafod y cynnydd sydd wedi'i wneud a chyfleoedd i rannu'r arferion gorau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn, cysylltwch ag Anna Buchanan ar 02920 445034 neu [anna.buchanan@olderpeoplewales.com](mailto:anna.buchanan@olderpeoplewales.com).

Yn gywir,



Ruth Marks  
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru